

Polygonau


(a) Cyfrifwch faint pob ongl fewnol mewn polygon rheolaidd sydd â naw ochr.
 (b) Ongl allanol polygon rheolaidd yw 40° . Faint o ochrau sydd gan y polygon?
 (c) Eglurwch pam na all maint pob un o onglau allanol polygon rheolaidd fod yn 50° .
 (ch) Tair o onglau mewnol pentagon yw 110° , 120° a 170° . Mae'r ddwy ongl arall yn hafal. Cyfrifwch faint y naill a'r llall o'r ddwy ongl fewnol arall.

Cyfesurynnau Geometregol

Darganfyddwch gyfesurynnau canolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu'r pwyntiau canlynol.
 (a) (4, 8) a (6, 14). (b) (2, 3) a (-6, -1).
 (c) (-7, 2) a (1, 6). (ch) (3, 2) a (-5, 8).

Cyfesurynnau tri fertig petryal yw (4, 2), (4, -1) a (-2, -1). Beth yw cyfesuryn 4ydd fertig y petryal?

Trawsfurfiadau



Copiwch y petryal ar bapur sgwariau. (a) Trawsfudwch 4 uned i'r chwith ag un uned i fyny. (b) Cylchdrowch 90° yn glocwedd o amgylch y tarddbwynt. (c) Adlewyrchwch yn $x = 1$. (ch) Helaethwch gan ddefnyddio ffactor graddfa 2 a (3, 0) fel canol yr helaethiad.

Tebygolrwydd

(1) Atebwch mewn geiriau: Beth yw'r tebygolrwydd
 (a) Mehefin fydd o leiaf un o'r misoedd yn y 14 mis nesaf. (b) Byddwch yn cael odrif wrth daflu dis cyffredin. (c) Ennill raffl pan fyddwch wedi prynu pump o'r 300 o docynnau sydd wedi'u gwerthu.
 (2) Mae un cerdyn yn cael ei ddewis ar hap o'r chwe cherdyn 4, 9, 4, 7, 4, 5. Beth yw'r tebygolrwydd mai:
 (a) 4 sydd wedi'i ddewis. (b) cerdyn llai na 10 sydd wedi'i ddewis. (c) 3 sydd wedi'i ddewis.

Amllder Cymharol

Mae cwmni'n dosbarthu blychau o afalau. Mae 20 afal ym mhob haen o'r blwch. Mae gan bob blwch 5 haen o afalau. Mae nifer yr afalau pwdr (rotten) ym mhob un o'r 5 haen mewn un blwch yn 3, 0, 1, 4, 1.
 (a) Ysgrifennwch yr amcangyfrif gorau o'r amllder cymharol ar gyfer dewis ar hap afal pwdr mewn un haen o afalau. (b) Faint o afalau pwdr gallech chi ddisgwyl eu darganfod mewn 8 blwch o afalau?

Diagramau Gofod Sampl

Mewn gêm, y sgôr yw'r lleiaf o'r ddau ddisg a dynnwyd – un o'r blwch gwyrdd, ag un o'r blwch coch. (a) Cwblhewch y tabl i ddangos pob sgôr sy'n bosib. (b) Mae chwaraewr yn ennill trwy gael sgôr llai na 6. Os yw 80 o bobl yn chwarae, faint fydd yn ennill?

Blwch gwyrdd	13	3			
	10	3			
	7	3	6	7	7
	4	3	4	4	4
		3	6	9	12
					Blwch coch

Adnoddau Adolygu ar gael ar Moodle yr ysgol <http://moodle.creuddyn.conwy.sch.uk> neu ar <http://www.mathemateg.com>

Hen Bapurau Arholiad. Cwisiau Adolygu. Fideos Adolygu. Cwestiynau #5ydydd. Cymorth wrth Adolygu. Dolenni Defnyddiol.

Arholiadau Mathemateg

Uned 1: **Heb** Gyfrifiannell. 1 awr 30 munud; 65 marc.
 Uned 2: **Hefo** Gyfrifiannell. 1 awr 30 munud; 65 marc.

Arholiadau yn Nhachwedd ac yn yr Haf.


MATHEMATEG

Lluniadu efo Cwmpas


Defnyddiwch bren mesur, onglydd a chwmpas i lunio'r triongla ABC canlynol. (a) $AB = 5$ cm, $B\hat{A}C = 40^\circ$, $A\hat{B}C = 60^\circ$. (b) $AB = 6$ cm, $BC = 8$ cm, $A\hat{B}C = 64^\circ$. (c) $AB = 5.7$ cm, $BC = 8.1$ cm, $AC = 9.2$ cm. Defnyddiwch gwmpas a phren mesur i lunio'r siapiau canlynol. (a) Rhombws ble mae'r hydoedd yn 6 cm a hyd y groeslin fwyaf yw 10 cm. (b) Barcut ble mae'r hydoedd yn 6 cm ac 8 cm, a hyd y groeslin fwyaf yw 10 cm.

Cyasuredd

Beth yw trefn cymasuredd cylchdro'r siapiau isod?




Tywyllwch y nifer lleiaf o sgwariau i wneud y grid isod yn gymesur.



Onglau Pellach

Cyfrifwch faint yr onglau sydd wedi'u marcio isod.



Beth yw maint pob ongl mewn triongl hafalochrog?

Diagramau Gofod Sampl